# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 7 Mawrth 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser, G.B. Thomas a J.E. Williams;

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D. Cundy mewn perthynas â chais cynllunio S/34991;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu a Threftadaeth Adeiledig
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
J. Thomas, Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y De]
K Phillips, Swyddog Rheoli Datblygu
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 am - 11.45 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd S.M. Allen a’r Cynghorydd P.M. Edwards.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J Gilasbey | 4 – Cais Cynllunio S/38288 - Cynllun i ddymchwel yr adeilad ysgol presennol ac ailddatblygu'r safle i ddarparu ysgol cyfrwng Saesneg newydd â 270 o leoedd a meithrinfa â 30 o leoedd a hyd at 23 o leoedd amser llawn ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar (gofal cofleidiol) ynghyd â maes parcio, maes chwaraeon, maes chwarae amlddefnydd a gwaith tirweddu a seilwaith cysylltiedig, Ysgol y Castell, Stryd y Prior, Cydweli, SA17 4TR; | Is-gadeirydd Corff Llywodraethu'r Ysgol |
| D. Jones | 4 – Cais Cynllunio S/38166 Amrywio amod 5 (oriau agor) o ganiatâd GW/00362 - campfa a | Mae wedi ymdrin â phreswylwyr sy'n byw ger y gampfa o'r blaen. |

| | | |
|---|---|---|
| | chanolfan ffitrwydd, a gymeradwywyd ar 27/02/2002 - estyn yr oriau agor am awr o 7.00am i agor am 6.00am yng Nghanolfan Iechyd a Ffitrwydd Evolution, Heol Nantyreos, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RJ; | |

3. **RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| **E/37577** | **Preswylfa yn lle'r un bresennol ac adeiladu preswylfa ar wahân ac iddi ddau lawr â 3 ystafell wely yn Llettylicky, Crug-y-bar, Llanwrda, SA19 8SL**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle ac ar yr eiddo cyfagos. |

4. **RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safleoedd:-**

| | |
|---|---|
| **S/34991** | **Datblygiad preswyl o hyd at 94 o breswylfeydd, mynediad i gerbydau o Heol Maes-ar-Ddafen, lle agored, tirweddu a seilwaith cysylltiedig arall ar dir yng Nghefncaeau, oddi ar Heol Maes-ar-Ddafen ac Erwlas, Llwynhendy, Llanelli;**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle yn sgil pryderon a godwyd yn lleol; |
| **S/38295** | **Adeiladu tŷ newydd â garej yn rhan ohono ar Lain 3, Heol Bronallt, Fforest, Llanelli, SA4 7TE**<br><br>**RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y safle a'r hyn sydd o'i gwmpas; |

**4.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod;**

| | |
|---|---|
| **S/38166** | **Amrywio amod 5 (oriau agor) o ganiatâd GW/00362 - Amrywio amod 5 (oriau agor) o ganiatâd GW/00362 - campfa a chanolfan ffitrwydd, a gymeradwywyd ar 27/02/2002 - estyn yr oriau agor am awr o 7.00am i agor am 6.00am yng Nghanolfan Iechyd a Ffitrwydd Evolution, Heol Nantyreos, Cross Hands, Llanelli, SA14 6RJ;**<br><br>**[Sylwer:** Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd D. Jones Siambr y Cyngor |

| | |
|---|---|
| | cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.] |
| **S/38288** | **Cynllun i ddymchwel yr adeilad ysgol presennol ac ailddatblygu'r safle i ddarparu ysgol cyfrwng Saesneg newydd â 270 o leoedd a meithrinfa â 30 o leoedd a hyd at 23 o leoedd amser llawn ar gyfer darpariaeth y blynyddoedd cynnar (gofal cofleidiol) ynghyd â maes parcio, maes chwaraeon, maes chwarae amlddefnydd a gwaith tirweddu a seilwaith cysylltiedig, Ysgol y Castell, Stryd y Prior, Cydweli, SA17 4TR.**<br><br>**[Sylwer:** Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J. Gilasbey Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.] |

**5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod;**

| | |
|---|---|
| **W/35345** | **Cais am adeiladu storfa slyri ag ymylon pridd a'r holl waith cysylltiedig, tir a oedd gynt yn rhan o Sarnginni/Nantyrhafod, Heol Glantren, Llanybydder, SA40 9SA.** |

**6. COFNODION - 22AIN IONAWR 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2019 yn gofnod cywir.**

**7. COFNODION - 7FED CHWEFROR 2019**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2019 yn gofnod gywir.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]